# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Hydref 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint o bobl a fynychodd Gwpan Ryder 2010. (WAQ56598)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Hydref 2010***

Nododd y PGA European Tour a gynhaliodd y digwyddiad ac sy'n berchen ar yr holl hawliau masnachol, gan gynnwys y tocynnau, fod yr amcangyfrif o'r nifer a fynychodd wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 27,000 |
| Dydd Mercher | 29,000 |
| Dydd Iau | 36,000 |
| Dydd Gwener | 38,000 |
| Dydd Sadwrn | 43,000 |
| Dydd Sul | 36,000 |
| Dydd Llun | 35,000 |
| **CYFANSWM** | **244,000** |

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint o nawdd a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gwpan Ryder 2010. (WAQ56599)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Hydref 2010***

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu unrhyw 'nawdd' tuag at y digwyddiad, fel y cyfryw. Fodd bynnag, mae cynnal unrhyw ddigwyddiad mawr - a dyma'r digwyddiad mwyaf y gall Cymru ei gynnal fwy na thebyg - yn golygu bod angen gwneud buddsoddiad sylweddol er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyflawni'r nod, y caiff ei derbyn yn rhyngwladol ac y caiff effaith hirdymor.

Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu tua £43 miliwn tuag at gynnal Cwpan Ryder. Mae hyn yn cynnwys gwaith seilwaith a marchnata gyda thua £37.6 miliwn yn mynd tuag at Cwpan Ryder Cymru Cyf dros 10 mlynedd er mwyn ei alluogi i gyflawni ymrwymiadau o ran cynigion y sector cyhoeddus ar gyfer cynnal y digwyddiad ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn cynnwys talu Ffi Hawliau flynyddol i Ryder Cup Europe (European Tour); rhaglen ddigwyddiadau flynyddol Summer of Golf; a Chronfa Etifeddiaeth gwerth £2 filiwn ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o hyrwyddo twf a datblygiad y gêm.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Beth oedd cyfanswm cost gwella'r seilwaith priffyrdd / ffordd ymuno ac ymadael / cylchfan ar gyfer Cwpan Ryder 2010. (WAQ56600)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The total cost of the highway infrastructure/slip road/roundabout alterations which were timed to be completed for the 2010 Ryder Cup was £3.6m.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Beth yw'r amcangyfrif o faint o arian a ddaw i Gymru o ganlyniad i Gwpan Ryder 2010. (WAQ56601)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The economic impact of the event itself was estimated at over £70 million in 2006 – however, that figure was calculated in different economic times so I’m cautious about the final outcome. However, we must also take into account the growth in golf tourism since the bid was won and the enhanced profile the event has brought to Wales.
An Economic Impact Study is underway which will measure the overall impact of the event on the Welsh Economy. It will be the first report of its type to evaluate the longitudinal impact of an event as it also covers the 2014 event thanks to the co-operation of all partners and stakeholders.
The final report is due early in the new year.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud i wella mynediad i wasanaethau gofal traed ledled Cymru. (WAQ56596)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Hydref 2010***

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd gofal traed da i bobl hŷn er mwyn eu galluogi i gadw i symud ac i fod yn annibynnol. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi bod rheoli iechyd cyffredinol eu traed eu hunain yn anodd i rai pobl hŷn.

Gallaf ddweud wrthych fod yr ymarfer cwmpasu drafft bellach wedi'i gwblhau a byddaf yn ymgynghori ar yr argymhellion hyn eleni.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw'r holl fyrddau iechyd lleol yn awr yn cydymffurfio â'r safonau canser a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ56597)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Hydref 2010***

Ar hyn o bryd mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn cynnal hunanasesiadau yn erbyn y Safonau Canser Cenedlaethol. Wedyn bydd fy swyddogion yn paratoi adroddiad Cymru gyfan cryno i mi.